CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 4ydd o FAI 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr B.Owen, W.R.Owen J.W.Parry, K.Richards, S.Sage

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

(1) Diolch

Diolchodd y Maer i'r Parchedig Ronald Williams, oedd wedi bod yn Gaplan iddo am y ddwy flynedd ddiwethaf.

(2) Profedigaeth a Gwaeledd

Cyfeiriodd y Maer at y canlynol, a bu ddatgan ei fod yn meddwl am y teuluoedd mewn cyfnod anodd:
(1) Y Clerc, oedd newydd gael profedigaeth o golli ei fam.
(2) Y Cynghorydd Stuart Sage – roedd ei wyres yn wael iawn.

3. **Datgan Buddiant Personol**

Dim.

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc**)

Dim.

5. **Cofnodion**

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 6ed o Ebrill 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, yn amodol ar ddiwygio'r fersiwn Saesneg i fod yn gyson â'r Gymraeg ar dudalen 5, ac i ddarllen fel a ganlyn:

“(3) Gŵyl Arall would appreciate receiving the whole sum of £1,000 (for 2020/21).
(4)That the schedule of costs was as follows:

- 19/02/2020 – W.O. Jones Programs and posters - £259.00
- 27/02/2020 - Rhian George - £1,500.00 (it was noted that this was not something that could receive a donation from the Town Council)
- 20/07/2020 - Catrin Williams - Workshop video - £40.00
- 30/07/2020 - Rhys Mwyn Lecture - £30.00
- 30/07/2020 - Elin Haf Tomos Lecture - £30.00
- 09/09/2020 - Menai Rowlands Video Editing - £40.00
- 09/09/2020 - Eleri Parry Lecture - £40.00
- 23/09/2020 - Doco Gŵyl FFOR Arall Design - £450.00
- 28/10/2020 - Iwan Standley Website Maintenance - £ 300.00
- Total - £ 2689.00

(5) The estimated costs for this year's St. David's Day were as follows:

- Website and design - £750.00
- Participants - £240.00

(6) The total costs were £3,679.00
(7) The Clerk had been asked to put the above costs before the Council to determine the 2020/21 contribution.

Resolved to contribute £1,000 to Gŵyl Arall in 2020/21

Councillors K.Jones, W.R.Owen and J.W.Parry abstained from voting.”

6. **Cyfrifon**

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Derbyn a’u talu.
(2) Gofyn i’r Clerc gael ateb gan Steffan Jones o ran cael fan i’r Gweithiwr Cynnal a Chadw erbyn diwedd mis Mai.

7. **Cysoni Cyfrifon**

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Mynwent Llanbeblig

Cyflwynwyd gohebiaeth gan y Canon Dylan J.Williams, Rheithor Plwyf Llanbeblig, oedd yn nodi:
(1) Ei fod wedi bod yn y swydd ers mis Hydref 2020, ac nad oedd yn ymwybodol y bod hi’n bosibl i roi cais i mewn am Grant am £1,000 i’r Cyngor Tref at gynnal a chadw Mynwent Llanbeblig.

(2) Ei fod yn gofyn a wnaiff y Cyngor ystyried y cais, er ei fod i fod i mewn erbyn diwedd mis Tachwedd, 2020.

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Gofyn i'r Rheithor i lenwi'r ffurflen briodol ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid.
(2) Datgan wrtho fod angen bod yn glir ar y ffurflen o ran beth yn union roeddynt yn gofyn am gyfraniad ariannol.

9. Awdit 2020-21

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa, oedd yn nodi fod hyn ar waith, a'r bwriad oedd cyflwyno popeth gerbron y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod fis Mehefin.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran Adeilad yr Institiwt, oedd yn nodi ei fod dal yn disgwyl i gwmni ddod i'r Institiwt i edrych ar y landeri, ac erbyn hyn bod wifi ar gael ym mhob ystafell.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

11. Digwyddiad Ar-Lein Cymorth Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Gymorth Cynllunio Cymru am y digwyddiad fydd yn cymryd lle ar y 23ain o Fehefin.

Penderfynwyd gofyn i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio adael i'r Clerc wybod os oedd ganddynt ddiddordeb i fynychu (unfrydol).

12. Ymgynghoriad: Pwerau awdurdodau lleol i fasnachu

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

13. Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu system Teledu Cylch Cyfyng Mannau Cyhoeddus

Cyflwynwyd copi o'r cytundeb diweddaraf.

Nodwyd fod y Cyngor Llawn wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 6ed o Ebrill:

"Penderfynwyd:

(1) Gan fod y map ar goll o'r rhaglen, ac felly nid oedd yr aelodau'n gallu gweld yr holl gyd-destun, peidio â mabwysiadu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu system Teledu Cylch Cyfyng Mannau Cyhoeddus am y cyfnod 1af Ebrill 2021 - 31ain Mawrth 2024 yn y cyfarfod hwn.
(2) Rhoi'r mater gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn, efo'r holl wybodaeth."

Nodwyd, os oedd aelodau yn credu fod problem mewn ardal benodol a bod angen camera, ei bod yn hanfodol hel tystiolaeth.

Penderfynwyd derbyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, ond y dylid gwirio'r canlynol (unfrydol):

(1) Os oes achosion eraill o angen camerâu ydi hi'n bosib gwneud rhywbeth am hyn cyn i'r 3 mlynedd ddod i ben?
(2) Gofyn i'r Clerc holi beth oedd y drefn o ran adrodd ar broblemau mewn ardaloedd lle'r oedd angen camerâu, o bosib.
(3) Dylid sicrhau fod y pryder o ran Mynwent Llanbeblig yn cael ei roi ar y rhaglen pan mae cynrychiolaeth o'r Heddlu yn mynychu cyfarfod o'r Cyngor Llawn.

14. Rhybuddion o Gynnig

Cyflwynwyd y rhybuddion o gynnig canlynol:

(a) Cynghorydd Maria Sarnaki

"Mae gan Cae Mur broblem fawr o geir yn parcio ar y palmentydd, gan arwain at famau ifanc gyda phramiau a phlant ifanc a'r henoed yn gorfod cerdded yn y ffordd i basio. Mae gan lawer o'r henoed gymhorthion cerdded ac mae hyn yn anodd iddyn nhw. Mae hon yn sefyllfa beryglus iawn. Yn ogystal, mae'n anodd iawn dod o hyd i le parcio yn agos i'ch cartref.

O ganlyniad i hyn, a allwn ni ofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, i fynegi pryder y Cyngor Tref a gofyn iddynt ddatrys y sefyllfa gyda mesurau gorfodi. "

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at yr Heddlu i fynegi pryder y Cyngor Tref a gofyn iddynt ddatrys y sefyllfa gyda mesurau gorfodi.
(2) Rhoi datganiad ar Facebook yn amlinellu'r problemau a wynebir o ran parcio ar y palmentydd.

(b) Cynghorydd Ann Hopcyn

"Mae'r Cyngor hwn yn ofidus am lygredd sŵn ar lannau Caernarfon a'r effaith andwyol ar fywyd gwyllt a chydbwysedd ecolegol y Fenai petai bwriad 'Above the Brine' i lansio 'jet skis' o Ddoc Fictoria yn cael ei gyflawni."

CEFNDIR

1. Mae cerdded ar hyd glannau'r Fenai wedi bod yn falm i eneidiau sawl un o drigolion y dref yn ystod y cyfnod y pandemig – llwybrau cerdded yn y dref ac ar y Foryd.
2. Byddai twrw jet skis yn difetha hynny.
3. Mae'r Fenai yn arbennig o ran bioleg:

i. *The Menai Strait has a wide variety of habitat types and is home to over 1,400 recorded species of plants and animals.*
ii. *The Strait is also inhabited by a number of rare creatures.*
iii. *Considerable anxiety has been expressed as to the state of the Menai Strait. It is thought to be suffering increased disturbance and pollution.*
iv. *A steady reduction in water clarity has been recorded since the 1970's* https://www.glaucus.org.uk/Menai.htm

4. Mae'r hyn sy'n ei wneud yn gynefin amrywiol a chyfoethog yn cael ei beryglu gan bresenoldeb jet skis.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at y cwmni yn nodi'r pryder o ran lansio'r jetskis, a'u gwahodd i gyfarfod o'r Cyngor Tref.

15. Cwestiynau

Dim.

16. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

[redacted]

[redacted]

(3) Gwahodd y Wasg yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.05 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....